------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mawrth 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalennau 1 - 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)464 - Rheoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024**

**2.2 SL(6)467 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.3 SL(6)469 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)465 – Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 4 - 5)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 – Papur 2 – Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

(13.40 - 13.45)

**4.1 SL(6)456 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 6 - 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 – Papur 3 – Adroddiad

LJC(6)-10-24 – Papur 4 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(6)462 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 15 - 19)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 – Papur 5 – Adroddiad

LJC(6)-10-24 – Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.3 SL(6)463 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 20 – 22)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 – Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-10-24 – Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd yn flaenorol

(13.45 – 13.50)

**5.1 SL(6)460 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 23 – 24)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 – Papur 9 – Adroddiad

LJC(6)-10-24 – Papur 10 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 – 13.55)

**6.1 Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru: Grwpiau Rhyngweinidogol**

(Tudalennau 25 – 28)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 – Papur 11 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, 11 Mawrth 2024

LJC(6)-10-24 – Papur 12 – Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, 12 Mawrth 2024

LJC(6)-10-24 – Papur 13 – Llythyr gan Weinidog yr Economi: Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE, 12 Mawrth 2024

**6.2 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024**

(Tudalennau 29 - 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 - Papur 14 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2024

LJC(6)-10-24 - Papur 15 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 13 Mawrth 2024

**6.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024**

(Tudalennau 32 - 34)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 - Papur 16 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 14 Mawrth 2024

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 - 14.00)

**7.1 Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Adroddiad cryno o'r pedwerydd cyfarfod**

(Tudalennau 35 - 43)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 - Papur 17 - Adroddiad cryno

**7.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Craffu gweinidogol**

(Tudalennau 44 - 45)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 - Papur 18 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 13 Mawrth 2024

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## 9 Cywiro Offerynnau Statudol Cymru

(14.00 - 14.05)

## 10 Llythyr drafft at Gadeirydd Dirprwyaeth Senedd Ewrop i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

(14.05 - 14.15) (Tudalen 46)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-10-24 - Papur 19 - Llythyr drafft [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 18 Mawrth 2024

## SL(6)464 – Rheoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth newydd sydd â'r nod o wella safonau a diogelwch ar draws y diwydiant adeiladu. Mae'r Rheoliadau yn ceisio sicrhau bod awdurdodau rheolaeth adeiladu a chymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu yn cael cyngor gan bobl sy'n weithwyr proffesiynol cofrestredig cyn i'r swyddogaethau penodol gael eu cyflawni. Bydd angen i weithwyr proffesiynol ddangos cymhwysedd perthnasol drwy system gofrestru sy'n cael ei rheoleiddio gan Weinidogion Cymru, cyn gwneud rhai penderfyniadau rheolaeth adeiladu.

Mae adran 44 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn mewnosod adrannau 46A (Awdurdodau rheolaeth adeiladu: gweithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig) a 54B (Cymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu: gweithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig) yn Neddf 1994. Mae adran 46A yn darparu bod yn rhaid i awdurdod rheolaeth adeiladu gyflawni gweithgaredd cyfyngedig, neu arfer swyddogaeth gyfyngedig, drwy, neu gyda chyngor, arolygydd cofrestredig adeiladu. Mae adran 54B yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas â chymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi gweithgareddau a swyddogaethau awdurdodau rheolaeth adeiladu a chymeradwywyr cofrestredig rheolaeth adeiladu, a gyfyngir o dan adrannau 46A a 54B o Ddeddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1994").

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi gweithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig gweithgaredd rheolaeth adeiladu at ddibenion adran 46A o Ddeddf 1994.

Mae rheoliad 4 yn rhagnodi gweithgareddau a swyddogaethau cyfyngedig gweithgaredd rheolaeth adeiladu at ddibenion adran 54B o Ddeddf 1994.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Adeiladu 1984

**Fe'u gwnaed ar:** 28 Chwefror 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 01 Mawrth 2024

**Yn dod i rym ar:** 06 Ebrill 2024

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 18 Mawrth 2024

## SL(6)467 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") yn darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am driniaeth ddeintyddol ac am gyflenwi gwasanaethau deintyddol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2006 drwy gynyddu'r ffi gymwysadwy sydd i'w thalu am gwrs o driniaeth Band 1, Band 2 a Band 3 ac am gwrs i driniaeth Brys.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

**Fe'u gwnaed ar:** 06 Mawrth 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 08 Mawrth 2024

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2024

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 18 Mawrth 2024

## SL(6)469 – SL(6)469 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Pan fo person mewn gofal preswyl, ac yn cael cymorth ariannol gan ei awdurdod lleol tuag at gost ei ofal, mae'n ofynnol iddo gyfrannu o'i incwm wythnosol tuag at y gost hon.

Fodd bynnag, o dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) 2015 (**y Rheoliadau Gosod Ffioedd**), rhaid i berson allu cadw swm o'i incwm i'w wario fel y mynna. Gelwir hyn yn 'isafswm incwm'. O dan y Rheoliadau Gosod Ffioedd, yr isafswm incwm ar hyn o bryd yw £39.50 yr wythnos.

Mae lefel yr isafswm incwm yn cael ei hadolygu'n flynyddol i ystyried y codiadau blynyddol i bensiynau gwladwriaeth y DU a thaliadau budd-daliadau lles, sy'n sail i incwm wythnosol preswylwyr cartrefi gofal. Gan ystyried y codiadau hyn, mae'r Rheoliadau'n cynyddu'r isafswm incwm o 8 Ebrill 2024 ymlaen o'i lefel bresennol, sef £39.50 yr wythnos, i £43.90 yr wythnos. Bydd hyn yn caniatáu i breswylwyr gadw swm ychydig yn uwch o'u hincwm i'w wario fel y mynnant.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:** 07 Mawrth 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 11 Mawrth 2024

**Yn dod i rym ar:** 08 Ebrill 2024

Eitem 3.1

# SL(6)465 - Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("Rheoliadau 2010") i weithredu Rhan 3 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022"). Mae Rhan 3 o Ddeddf 2022 yn diwygio Deddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984") ac yn diffinio'r cwmpas a'r darpariaethau ar gyfer y gyfundrefn yn ystod cyfnod dylunio ac adeiladu adeiladau risg uwch. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cofrestru arolygwyr adeiladu a chymeradwywyr rheolaeth adeiladu i reoleiddio'n well a gwella lefelau cymhwysedd yn y sector rheolaeth adeiladu.

Yn benodol, mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn ailenwi'r ffurflenni yn Atodlen 1 i Reoliadau 2010 ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol.

Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 16A yn Rheoliadau 2010: mae rheoliad newydd 16A yn darparu hysbysiad gwrthod.

Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer ffurflenni newydd i ganslo hysbysiad cychwynnol o dan adran 52, adran 52A ac adran 53D o Ddeddf 1984.

Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 18 o Reoliadau 2010 ac mae rheoliad 10(g) yn diwygio Atodlen 1 i Reoliadau 2010 i gyflawni hyn.

Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 18A yn Rheoliadau 2010. Mae'n darparu bod rhaid i gymeradwywr rheolaeth adeiladu cofrestredig roi hysbysiad pan fo o'r farn y dylid canslo'r hysbysiad cychwynnol o dan adran 52 o Ddeddf 1984 am dorri rheoliadau adeiladu, ynghyd ag amserlen i unioni'r achos o dorri rheoliadau adeiladu.

Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad newydd 19A yn Rheoliadau 2010. Mae'n darparu cyfnodau pan fo rhaid darparu gwybodaeth am waith y mae hysbysiad cychwynnol yn ymwneud ag ef at ddibenion adran 53(4B) ac adran 53(4C) o Ddeddf 1984.

Mae rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod Rhan newydd 3A yn Rheoliadau 2010, sy'n cynnwys rheoliadau newydd 19B i 19F. Mae'r rheoliadau newydd hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfa pan fo hysbysiad cychwynnol yn peidio â bod mewn grym a phan fo cymeradwywr rheolaeth adeiladu cofrestredig newydd yn cael ei benodi. Yn benodol, mae rheoliad newydd 19C o Reoliadau 2010 yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr hyn sydd i'w gynnwys mewn tystysgrif trosglwyddo. Mae rheoliad newydd 19E o Reoliadau 2010 ac Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn (a fewnosodir yn Rheoliadau 2010 fel Atodlen 3A newydd) yn nodi'r seiliau dros wrthod tystysgrif trosglwyddo ac adroddiad trosglwyddo. Mae rheoliad newydd 19D o Reoliadau 2010 yn rhagnodi'r cyfnod i awdurdod lleol ystyried y dystysgrif a'r adroddiad trosglwyddo. Mae rheoliad newydd 19F o Reoliadau 2010 yn nodi achosion pan ganiateir rhoi

hysbysiad cychwynnol pellach ar ôl canslo hysbysiad cychwynnol o dan adran 53D o Ddeddf 1984.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau trosiannol.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn Rheoliad 10, gall fod yn ddefnyddiol i'r darllenydd nodi bod ffurflenni 1 i 5 yn cael eu hailenwi yn unol â rheoliad 3 o Reoliadau 2024.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Efallai y bydd risg o ddryswch yn rheoliad 10(g) ynghylch lle mae'r "*lle priodol, mewn trefn rifyddol*", er mwyn i'r ffurflenni newydd gael eu mewnosod. Mae'n ymddangos mai'r drefn rifyddol fyddai'r ffurflenni [rhif](w) yn gyntaf, ac yna'r ffurflenni PB[rhif](w). Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, efallai y bydd rhywfaint o risg o ddryswch ynghylch ble mae'r ffurflenni newydd yn cael eu mewnosod, oherwydd bod gan y ffurflenni PB rifau ar hyn o bryd a'u bod yn cael eu hailenwi yn yr un rheoliadau, felly efallai nad yw'n gwbl glir ble y dylid mewnosod y ffurflenni newydd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Mawrth 2024**

# SL(6)456 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023 ("y prif Reoliadau"). Diben y Rheoliadau hyn yw egluro'r rhaniad cyfrifoldebau rhwng perchnogion brand, pacwyr/llanwyr, mewnforwyr a pherchnogion cyntaf yn y DU adosbarthwyr, a gosod gofyniad ar Cyfoeth Naturiol Cymru i lunio canllawiau mewn cysylltiad â phecynwaith cartref a chyhoeddi rhestr o gynhyrchwyr mawr. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu nifer o ddiwygiadau amrywiol, gan gynnwys egluro brawddegau a diwygio gwallau teipograffyddol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd.  Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 12 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 5(b) yn mewnosod diffiniad o "grŵp o gwmniau" yn rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau, sef y ddarpariaeth ddehongli ar gyfer termau sydd ag ystyr drwy gydol y Rheoliadau hynny. Dim ond yn rheoliad 11 o'r prif Reoliadau y defnyddir y diffiniad hwn ac mae rheoliad 11(9) yn datgan bod y diffiniadau at ddibenion y rheoliad hwnnw. Nid yw termau eraill sydd wedi'u diffinio o fewn darpariaeth ac a ddefnyddir yn y ddarpariaeth honno yn unig wedi'u cyfeirio yn y modd hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 5(c)(i) a (ii), dylai 'is-baragraff' fod yn 'baragraff' gan mai dyma'r adrannau cyntaf yn y diffiniad o "mewnforiwr", yn hytrach nag adrannau o baragraff (1) o reoliad 2 o'r prif Reoliadau.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad newydd 7(3)(b)(i) a (ii), nid yw'r cyfeiriadau at "bodloni'r gofyniad ym mharagraff (i)" a "bodloni'r gofyniad ym mharagraff (ii)" yn dynodi lleoliad y paragraffau hynny yn y prif Reoliadau yn ddigonol. Dylent gyfeirio at baragraff (2)(b)(i) a pharagraff (2)(b)(ii) yn y drefn honno, i roi sicrwydd i'r darllenydd.

4. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad 7(6) newydd, darperir rhestr o sefydliadau a phersonau sydd i'w trin fel sefydliadau cyhoeddus at ddibenion rheoliad 7 a rheoliad 7A. Nid oes unrhyw gyfeiriad at y rhestr hon yn rheoliad 7A, a allai olygu nad yw'r darllenydd yn ymwybodol o sut i ddehongli 'sefydliadau cyhoeddus' wrth ddarllen rheoliad 7A ar ei ben ei hun.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad 7(6) newydd, yn is-baragraff (a) yn y rhestr o sefydliadau a phersonau sydd i'w trin fel sefydliadau cyhoeddus ceir y term "ysgol, prifysgol, neu sefydliad addysgol arall". A all Llywodraeth Cymru ddarparu enghreifftiau o sefydliadau a fyddai'n dod o dan "sefydliad addysgol arall" ac egluro a yw'n ystyried ei bod yn ddigon clir i'r sefydliadau posibl hynny gael eu hadnabod at ddibenion rheoliad 7 a rheoliad 7A o'r prif Reoliadau.

6. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 8, yn rheoliad 7(8) newydd, diffinnir y termau "bin cartref" a "bin cyhoeddus" ar gyfer rheoliad 7 a rheoliad 7A newydd o'r prif Reoliadau. Efallai na fydd y darllenydd yn ymwybodol o dermau sydd wedi'u diffinio mewn rheoliad blaenorol (gweler Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw 4.8(4), mewn perthynas â diffiniadau arfaethedig). Gofynnwn a ddylai'r termau fod wedi'u cynnwys fel diffiniadau cyffredinol yn rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau, fel sydd wedi'i wneud gyda thermau diffiniedig eraill a ddefnyddir mewn mwy nag un rheoliad.

7. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg**.

Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "bin cyhoeddus", mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Ym mharagraff (ii) o'r diffiniad, mae'r testun Saesneg yn datgan "collect waste material" ond nid yw'n ymddangos ei fod yn gwneud synnwyr heb unrhyw eiriau ychwanegol. Mae'r testun Cymraeg wedi cyfieithu hyn fel "sydd wedi ei gynllunio i gasglu deunydd gwastraff" ("designed to collect waste material"). Yn hyn o beth, defnyddir yr ymadrodd "designed to collect waste material" yn y diffiniad o "household bin" yn nhestun Saesneg rheoliad newydd 7(8)(a). Felly, mae'n ymddangos mai'r testun Cymraeg sy'n rhoi'r diffiniad cywir o "bin cyhoeddus" a bod y geiriau "designed to" ar goll o destun Saesneg y rheoliad newydd 7(8)(b).

8. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg**.

Yn rheoliad 9, yn rheoliad newydd 7A(2), yn is-baragraff (d), yn y testun Cymraeg, mae "consumer" wedi ei gyfieithu fel "defnyddiwr". Fodd bynnag, mae'r term "consumer" wedi'i ddiffinio yn nhestun Cymraeg rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau fel "treuliwr". Mewn rhan arall o'r prif Reoliadau, mae "defnyddiwr" wedi'i ddefnyddio fel cyfieithiad o "user" i wahaniaethu rhwng y term hwnnw a "treuliwr" ("consumer"). Felly, mae'r testun Cymraeg wedi methu â defnyddio'r term diffiniedig cywir ar gyfer "consumer" wrth gyfieithu'r ddarpariaeth hon.

**9. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 10(b) yn diwygio paragraff 2 o reoliad 8 o'r prif Reoliadau. Ceir cyfeiriad o hyd at "paragraff (4)" yn y paragraff hwnnw, sy'n cael ei hepgor gan reoliad 10(d) o'r Rheoliadau hyn.

**10. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

(i) Yn rheoliad 17, yn rheoliad newydd 17A(1), mae'n datgan "Pan fo gwybodaeth mewn adroddiad a gyflwynir gan gynhyrchydd ("CM") o dan reoliad 17…". Fodd bynnag, dylai nodi gan "gynhyrchydd mawr ("CM")" oherwydd mai dim ond "cynhyrchydd mawr ("CM")" sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau a geir yn rheoliad 17. Mae "cynhyrchydd" a "cynhyrchydd mawr" yn dermau diffiniedig a geir yn rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau, felly mae gwahaniaeth sylweddol drwy ddefnyddio "cynhyrchydd" yn hytrach na "cynhyrchydd mawr" yn rheoliad 17A(1) newydd.

(ii) Mae hyn hefyd yn digwydd yn rheoliad 19, yn rheoliad 22A newydd pan ddefnyddir "cynhyrchydd mawr" yn gywir ym mharagraff (1), ond defnyddir "cynhyrchydd" wedi hynny ym mharagraff (2) o'r rheoliad newydd hwnnw.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn rheoliad 20(e), mae'n datgan "ym mharagraff 17, ym mharagraffau (a) a (b)" ond dylai ddatgan "yn is-baragraffau (a) a (b)".

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 20(g) yn diwygio paragraff 20 o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau. Mae is-baragraff (i) o reoliad 20(g) yn nodi 'ar ddiwedd y geiriau agoriadol', ond nid oes geiriau agoriadol i baragraff 20(a). Credwn y dylid dileu'r geiriau 'is-baragraff (a)' o'r geiriad sy'n rhagflaenu paragraff (i) gan ei bod yn ymddangos bod y gwelliant yn berthnasol i eiriau agoriadol paragraff 20, ac nid is-baragraff (a). At hynny, nid yw'r holl ddiwygiadau yn rheoliad 20(g) yn cael eu gwneud i destun yn is-baragraff (a) o baragraff 20 o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**13. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn wedi'u gosod o dan adran 2(8) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ac felly maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae adran 2(9) o'r Ddeddf honno yn rhestru'r rheoliadau y mae is-adran (8) yn gymwys iddynt. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa baragraff o is-adran (9) y mae'n ystyried sy'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**14. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mewn perthynas ag ymgynghori, nodwn y canlynol ym mharagraff 16 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Bu gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid allweddol ar ôl i'r Prif Reoliadau gael eu cyflwyno, sydd wedi helpu i nodi'r diwygiadau i'r Rheoliadau hyn.*

Nodwn nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn yn unol ag adran 2(4) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999, y cyfeirir ato yn y rhagymadrodd i'r Rheoliadau.

**15. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir na chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Caiff y canlynol ei ddatgan ym mharagraff 17 o'r Memorandwm Esboniadol:

> *Cafodd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ei ystyried mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Nid ystyrid bod angen cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision tebygol a fyddai'n deillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y cynllun EPR yn cynnwys dadansoddiad llawn o'r diwygiadau i EPR, a bod y diwygiadau'n fach iawn.*

**16. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir bod y Gweinidog Newid Hinsawdd, mewn llythyr at y Pwyllgor hwn dyddiedig 16 Chwefror 2024, wedi hysbysu bod y Rheoliadau hyn yn dod o dan gwmpas y Fframwaith Cyffredin Adnoddau a Gwastraff.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 1 i 14.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024***

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, nid ydym yn meddwl bod angen gwneud unrhyw ddiwygiad oherwydd nid yw cynnwys y diffiniad o "grŵp o gwmnïau" yn rheoliad 2(1) o'r prif Reoliadau yn effeithio ar eglurder na diben y prif Reoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, ystyriwn fod y ddeddfwriaeth fel y'i drafftiwyd yn ddigon clir ac nid ydym yn credu bod angen cyfeirio at y rhestr hon yn rheoliad 7A i roi sicrwydd i'r darllenydd.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Mae'r defnydd o "sefydliad addysgol arall" yn gyson ag Atodlen 1 i Reoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012, sy'n amlinellu a yw rhai mathau o fangreoedd yng Nghymru a Lloegr yn ddarostyngedig i ffioedd casglu a gwaredu ar gyfer casglu gwastraff cartrefi ac mae'n cynnwys "schools, universities, and other educational establishments". Gallai'r enghreifftiau o "sefydliad addysgol arall" gynnwys colegau galwedigaethol. Ystyriwn y bydd cadw'r disgrifiad hwn yn sicrhau eglurder i gynhyrchwyr ac ystyriwn ei fod yn ddigon clir i'r sefydliadau posibl hynny. Nid ystyriwn fod angen egluro "sefydliad addysgol arall" ymhellach.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Nodir y pwynt hwn. Fodd bynnag, ystyriwn fod y ddeddfwriaeth fel y'i drafftiwyd yn ddigon clir ac nid ydym yn credu bod angen gwneud unrhyw ddiwygiad i roi sicrwydd i'r darllenydd.

**Pwynt Craffu Technegol 7:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 8:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 9:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 10:** (i) Nodir y pwynt hwn. Ystyriwn ei bod yn glir i'r darllenydd mai dim ond at gynhyrchydd mawr y gall y rhwymedigaeth yn rheoliad newydd 17A o'r prif Reoliadau gyfeirio am mai dim ond cynhyrchwyr mawr sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth yn rheoliad 17 o'r prif Reoliadau. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud fel y'i nodir yn y tabl isod.

(ii) Nodir y pwynt hwn. Ystyriwn ei bod yn glir mai dim ond at gynhyrchydd mawr y gall y rhwymedigaeth yn rheoliad newydd 17A o'r prif Reoliadau gyfeirio am mai dim ond cynhyrchwyr mawr sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth yn rheoliad 17 o'r prif Reoliadau. Yn ogystal, mae'r cyfeiriad yn rheoliad newydd 22A(2) yn glir ei fod yn cyfeirio at gynhyrchwyr mawr oherwydd dim ond cynhyrchwyr mawr sydd wedi eu cynnwys yn "y rhestr" y cyfeirir ati ym mharagraff (1). Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 11:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 12:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud i fynd i'r afael â hyn fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:** Ystyriwn fod adran 2(9)(d) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 yn berthnasol. Ystyriwn y gall rhai o'r diwygiadau yn y Rheoliadau newid y pwynt rhwymedigaeth o dan y prif Reoliadau o un math o gynhyrchydd i un arall (megis diwygiadau i'r diffiniad o "pecynwaith cartref") ac felly naill ai cynyddu rhwymedigaethau cynhyrchwyr unigol presennol neu roi rhwymedigaethau newydd ar gynhyrchwyr na fyddent wedi bod ganddynt o dan y prif Reoliadau (megis y diwygiadau i'r diffiniad o "gwerthwr"), pan fyddai'r methiant i gasglu/adrodd ar ddata yn drosedd.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:** Drwy fforymau rhanddeiliaid a gweithgorau'r pedair gwlad, gwnaethom fynd ati i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn ffordd wedi ei thargedu er mwyn llywio'r diwygiadau i'r prif Reoliadau yn y Rheoliadau hyn. Ymhlith y rhanddeiliaid hyn roedd CNC a

Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal ag aelodau allweddol o'r diwydiant pecynwaith, yn unol ag adran 2(4) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999.

*Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | ***CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU*** |
|---|---|
| **Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024** | **The Packaging Waste (Data Reporting and Collection) (Wales) (Amendment) Regulations 2024** |
| Yn rheoliad 5, yn is-baragraffau (c)(i) ac (c)(ii), yn lle "yn is-baragraff" rhodder "ym mharagraff". | Yn rheoliad 5, yn is-baragraffau (c)(i) ac (c)(ii), yn lle "sub-paragraph" rhodder "paragraph". |
| Yn rheoliad 8, yn y rheoliad 7 a amnewidir o'r prif Reoliadau, ym mharagraffau (3)(b)(i) a (3)(b)(ii), yn lle "ym mharagraff" rhodder "yn is-baragraff". | Yn rheoliad 8, yn y rheoliad 7 a amnewidir o'r prif Reoliadau, ym mharagraffau (3)(b)(i) a (3)(b)(ii), yn lle "paragraph" rhodder "sub-paragraph". |
| | Yn y testun Saesneg, yn rheoliad 8, yn y rheoliad 7 a amnewidir o'r prif Reoliadau, ym mharagraff (8)(b)(ii), o flaen "collect" mewnosoder y testun "designed to". |
| Yn y testun Cymraeg, yn rheoliad 9, yn y rheoliad newydd 7A o'r prif Reoliadau, ym mharagraff (2)(d), yn lle "ddefnyddiwr" rhodder "dreuliwr". | |
| Yn rheoliad 10, amnewidir is-baragraff (b) fel y'i nodir isod.<br><br><u>Yn lle is-baragraff (b) fel y mae ar hyn o bryd</u><br>"(b) ym mharagraff (2), yn lle "paragraff (6)", rhodder "paragraff (5)(b)(iii), (6) neu (7)";" | Yn rheoliad 10, amnewidir is-baragraff (b) fel y'i nodir isod.<br><br><u>Yn lle is-baragraff (b) fel y mae ar hyn o bryd</u><br>"(b) in paragraph (2), for "paragraph (6)", substitute "paragraph (5)(b)(iii), (6) or (7)";" |

| | |
|---|---|
| Rhodder:<br>"(b) ym mharagraff (2)—<br>(i) yn lle "paragraff (6)", rhodder "paragraff (5)(b)(iii), (6) neu (7);<br>(ii) yn lle "paragraff (4)", rhodder "paragraffau (3) a (12A)";" | Rhodder:<br>"(b) in paragraph (2)—<br>(i) for "paragraph (6)", substitute "paragraph (5)(b)(iii), (6) or (7);<br>(ii) for "paragraph (4)", substitute "paragraphs (3) and (12A)";" |
| Yn rheoliad 17, yn y rheoliad newydd 17A o'r prif Reoliadau, ym mharagraff (1), ar ôl "gynhyrchydd" mewnosoder y gair "mawr". | Yn rheoliad 17, yn y rheoliad newydd 17A o'r prif Reoliadau, ym mharagraff (1), o flaen "producer ("LP")" mewnosoder y gair "large". |
| Yn rheoliad 19, yn y rheoliad newydd 22A o'r prif Reoliadau, ym mharagraff (2) ac is-baragraffau (a), (b) ac (c), ar ôl "cynhyrchydd" mewnosoder y gair "mawr". | Yn rheoliad 19, yn y rheoliad newydd 22A o'r prif Reoliadau, ym mharagraff (2) ac is-baragraffau (a), (b), ac (c), o flaen "producer" mewnosoder y gair "large". |
| Yn rheoliad 20(e), yn lle "ym mharagraffau (a) a (b)" rhodder "yn is-baragraffau (a) a (b)". | Yn rheoliad 20(e), yn lle "paragraphs (a) and (b)" rhodder "sub-paragraphs (a) and (b)". |
| Yn rheoliad 20(g), bydd y testun ", is-baragraff (a)" yn cael ei ddileu. | Yn rheoliad 20(g), bydd y testun ", sub-paragraph (a)" yn cael ei ddileu. |
| Bydd mân faterion fel fformatio, mân newidiadau i'r nodyn esboniadol a'r troednodiadau a chywiro gwallau teipograffyddol hefyd yn cael eu cywiro cyn gwneud y Rheoliadau. | |

# SL(6)462 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (**y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig**) a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (**Deddf 2016**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu nad yw gwasanaeth gofal canolraddol awdurdod lleol yn cael ei drin fel gwasanaeth cartref gofal at ddibenion Deddf 2016 (ond gweler rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn am gwmpas cyflawn yr eithriad hwn). Bydd gwasanaeth gofal canolraddol yr awdurdod lleol yn parhau i gael ei reoleiddio fel gwasanaeth cymorth cartref.

Ystyr "gofal canolraddol" ("intermediate care") yw'r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn am gyfnod cyfyngedig at ddiben hybu gallu'r oedolyn i fyw'n annibynnol yn ei gartref ei hun drwy—

(a) osgoi ei dderbyn i ysbyty yn ddiangen,

(b) lleihau hyd unrhyw dderbyniad i'r ysbyty drwy alluogi ei ryddhau yn amserol,

(c) galluogi ei adferiad ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty, neu

(d) atal neu ohirio'i dderbyn i wasanaeth cartref gofal.

At hynny, mae'r Rheoliadau yn egluro, pan fydd darparwr gwasanaeth llety yn ailgyflunio mangre, gan arwain at gapasiti cynyddol i letya pump neu fwy o bobl, bod yn rhaid i'r ystafell wely/ystafelloedd gwely ychwanegol a mannau cymunedol y gwasanaeth fodloni gofynion penodedig. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gael ystafelloedd ymolchi ensuite, isafswm maint ystafelloedd gwely, lleiafswm ardal gymunedol, gofod awyr agored hygyrch ac, mewn rhai amgylchiadau, lifft teithwyr.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig ar hyn o bryd yn cynnwys is-baragraffau (a) i (j). Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu is-baragraff ychwanegol ar ôl is-baragraff (j). Fodd bynnag, nid yw'r is-baragraff ychwanegol wedi'i labelu fel is-baragraff (k), yn hytrach mae wedi'i labelu fel is-baragraff (l).

Nid yw'n glir pam na ddilynwyd trefn yr wyddor wrth ychwanegu'r is-baragraff newydd ar ôl is-baragraff (j).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ar ddechrau'r Rheoliadau, mae cyfeiriad at y dyddiadau y caiff y Rheoliadau eu gwneud, eu gosod a'u dod i rym. Fodd bynnag, ar gyfer offerynnau cadarnhaol drafft fel y Rheoliadau hyn, y confensiwn yw cyfeirio at y dyddiadau y gwneir y Rheoliadau s phan fyddant yn dod i rym, yn unig.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau hyn a chyhoeddi datganiad am yr ymgynghoriad. At hynny, mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r datganiad gerbron Senedd Cymru.

Mae rhaglith y Rheoliadau hyn yn datgan bod Gweinidogion Cymru wedi gosod copi o'r datganiad hwnnw gerbron Senedd Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw ddatganiad o'r fath wedi'i osod gerbron Senedd Cymru.

Byddem yn croesawu eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch statws presennol y datganiad ymgynghori.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diffino Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 fel "y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig".

Fodd bynnag, mae’r Memorandwm Esboniadol yn diffinio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 fel “y Rheoliadau Darparwryr Gwasanaethau”.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r diffiniadau a ddefnyddir yn y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol yn gyson.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i bwyntiau adrodd 1 i 3.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mewnosododd rheoliad 4(b) o *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020* is-baragraff (k) yn rheoliad 2(1) (gwasanaethau cartrefi gofal) o'r Prif Reoliadau[1] i ddarparu eithriad, o dan amgylchiadau penodol, i'r gofyniad i gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal mewn ymateb i ledaeniad y coronafeirws.

Mae is-baragraff (k) wedi ei ddirymu wedi hynny gan *Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022*.

Rhoddwyd ystyriaeth, wrth ddrafftio'r ddarpariaeth y creffir arni yma, i baragraff 7.24 o *Drafftio Deddfau i Gymru*. Mae paragraff 7.24 yn ymdrin ag ailddefnyddio rhifo sydd wedi ei ddirymu'n flaenorol. Ar ôl ystyried cynnwys paragraff 7.24 – ac o ystyried bod pwnc is-baragraff arfaethedig (l) yn y Rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer eithriad i'r gofyniad i gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal am resymau nad ydynt yn ymwneud o gwbl â'r coronafeirws – ystyrir ei bod yn briodol arddel is-baragraff newydd ar ffurf (l) a bod hynny'n glynu wrth y canllawiau ym mharagraff 7.24 o *Drafftio Deddfau i Gymru*.

Am y rhesymau hyn, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu newid label is-baragraff (l) yn y Rheoliadau drafft.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am dynnu sylw at y pwynt adrodd hwn, a bydd yn cymryd camau i gywiro'r gwall hwn, nad yw'n un o sylwedd, cyn i'r offeryn gael ei wneud.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am godi'r pwynt hwn.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y cynigion sy'n sail i'r Rheoliadau rhwng 15 Mai a 6 Awst 2023. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2023.

Cymerwyd camau i sicrhau bod copi o'r datganiad sy'n ofynnol yn unol â gofynion adran 27(5) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn cael ei osod gerbron y Senedd cyn i'r Rheoliadau drafft gael eu gwneud.

[1] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru'r Memorandwm Esboniadol i sicrhau cysondeb o ran y cyfeirio rhwng y Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol.

*Cywiriadau drafftio technegol i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau.*

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| Bydd y testun "*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *** " yn y Testun Cymeradwyo ar ddechrau'r Rheoliadau yn cael ei ddileu. | Bydd y testun "*Laid before Senedd Cymru* *** " yn y Testun Cymeradwyo ar ddechrau'r Rheoliadau yn cael ei ddileu. |

# SL(6)463 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024

## Cefndir a Diben

Gwneir Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024 o dan bwerau a roddwyd o ganlyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("y Ddeddf Ymadael") i ddiwygio deddfwriaeth ym maes iechyd planhigion a ffioedd iechyd coed.

Mae'r offeryn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 sy'n gymwys o ran Cymru. Mae'n alinio ffioedd ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion â'r newid yn amlder y gwiriadau a gynhelir ledled Prydain Fawr ar ôl rhoi Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) ar waith. Bydd yr offeryn yn diwygio hefyd y ffioedd sy'n gysylltiedig â gwirio dogfennau o ganlyniad i newid gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol.

Mae'r newidiadau i ba mor aml y cynhelir gwiriadau a chyflwyno gwiriadau sy'n seiliedig ar risg ar nwyddau risg canolig a fewnforir o aelod-wladwriaethau'r UE, Liechtenstein a'r Swistir, o 30 Ebrill 2024 yn ganlyniad Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Lloegr) a Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) (Amlder Gwiriadau) (Diwygio) 2024.

Bydd y Rheoliadau hyn hefyd yn cywiro gwall yn Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 a wnaed yn Atodlen 1 o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022 ble codwyd nifer o ffioedd ar lwythi cymysg. Bwriad y polisi oedd rhoi pob categori o blanhigyn sydd i'w blannu mewn un categori, ond arweiniodd y ddeddfwriaeth at gam godi ffioedd, yn ôl categori yn hytrach nac yn ôl llwyth. Bydd y diwygiad yn sicrhau bod pob categori o blanhigyn sydd i'w blannu mewn un categori, a bydd hyn yn sicrhau mai dim ond un ffi unffurf fydd yn cael ei chodi ar lwythi o blanhigion sydd i'w plannu.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 2(3), yn yr Atodlen 1 newydd, yn y cofnod ar gyfer "Pyrus", yng ngholofn 2, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r rhestr o wledydd sy'n dechrau gyda "Any third country other than…" yn gorffen gyda "Liechtenstein, **South Africa or** Switzerland". Mae'r wlad "De Affrica", fodd bynnag, ar goll o'r testun Cymraeg fel bod y rhestr gyfatebol o wledydd yn y cyfieithiad yn gorffen gyda "Liechtenstein neu'r Swistir".

**2. Rheol Sefydlog 21.2 (vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn rheoliad 2, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y geiriau mewn cromfachau ar ôl "Schedule 1", mae'r testun Saesneg yn nodi "(fees in connection with a plant passport authority)". Fodd bynnag, ystyr y cyfieithiad yn y man cyfatebol yn y testun Cymraeg yw "(ffioedd am arolygiadau mewn cysylltiad ag awdurdodiad pasbort planhigion)". Felly, mae'r testun Cymraeg yn cynnwys geiriau ychwanegol sy'n golygu "am arolygiadau" fel y gwelir ym mhennawd presennol Atodlen 1 i Reoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(5), yn yr Atodlen 2B newydd, yn yr ysgwydd nodyn, mae'n cyfeirio at "Rheoliad 3(2)(a)". Dylai, fodd bynnag, gyfeirio at "Reoliad 3(2)(a) **a (b)**" oherwydd cyfeirir at Atodlen 2B yn is-baragraff (a) ac is-baragraff (b) o'r paragraff newydd (2) yn rheoliad 3 o Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018, a ddisodlwyd gan reoliad 2(2)(a) o'r Rheoliadau hyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024**

Pwynt Craffu Technegol 1**:** Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod y wlad “De Affrica” wedi ei chynnwys yn nhestun Cymraeg yr Atodlen 1 newydd yn y cofnod olaf ar gyfer “Pyrus”, yng ngholofn 2.

Pwynt Craffu Technegol 2: Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn diwygio testun Saesneg rheoliad 3 i gynnwys “for inspections” yng nghyfeiriad pennawd Atodlen 1.

Pwynt Craffu Technegol 3: Nodir y pwynt hwn. Byddwn yn sicrhau bod ysgwydd nodyn yr Atodlen 2B newydd hefyd yn cyfeirio at reoliad 3(2)(b) cyn gwneud y Rheoliadau i fynd i’r afael â hyn.

*Cywiriadau drafftio technegol i’w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| **CYWIRIADAU I’R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I’R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) 2024** | **The Plant Health etc. (Miscellaneous Fees) (Amendment) (Wales) Regulations 2024** |
| Yn yr Atodlen 1 newydd yn y cofnod olaf yng ngholofn 2 ar gyfer “Pyrus” bydd y wlad “De Affrica” yn cael ei chynnwys felly bydd y testun yn gorffen “Liechtenstein, De Affrica neu’r Swistir”. | |
| | Yn rheoliad 3 diwygir y cyfeiriad at bennawd Atodlen 1 i “(fees for inspections in connection with a plant passport authority)”. |
| Bydd ysgwydd nodyn yr Atodlen 2B newydd yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at “Rheoliad 3(2)(a) a (b)”. | Bydd ysgwydd nodyn yr Atodlen 2B newydd yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at “Regulation 3(2)(a) and (b)”. |

# SL(6)460 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn dwyn i rym – ar 6 Ebrill 2024 – ddarpariaethau amrywiol o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 ("Deddf 2022") sy'n ymwneud â'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer y proffesiwn rheolaeth adeiladu. At hynny, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth drosiannol ac arbed.

## Y weithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Rheoliadau.

1. Mae rheoliad 2(d)(ix) yn dwyn i rym adran 53(2) a (3)(a)(ii) a (iii) a (3)(b) o Ddeddf 2022. Ymddengys mai'r pŵer galluogi perthnasol yw adran 170(4)(b)(vii) o Ddeddf 2022, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddwyn i rym drwy reoliadau, adran 53 (ac eithrio is-adran (1) o'r adran honno) o Ddeddf 2022.

   Gofynnir, felly, i Lywodraeth Cymru a ddylai adran 170(4)(b)(vii) fod wedi'i dyfynnu fel pŵer galluogi yn y rhagymadrodd i'r Rheoliadau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mawrth 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 4, Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) (Cymru) 2024**

Pwynt Craffu 1: Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad yw adran 170(4)(b)(vii) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn cael ei dyfynnu. Y rheoliad yn yr offeryn sy'n dibynnu ar adran 170(4)(b)(vii) yw rheoliad 2(d)(ix). Mae'r rheoliad yn cychwyn adran 53(2) a (3)(a)(ii) a (iii) a (3)(b) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 o ran Cymru ac, er ei bod yn rhan o brosiect gweithredu ehangach, nid yw'r ddarpariaeth benodol hon wedi ei rhyng-gysylltu ag unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau.

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod hepgor yr is-baragraff yn newid effaith yr offeryn, sy'n parhau i fod intra vires. Mae'r Llywodraeth yn dibynnu ar yr egwyddorion a nodir yn Inco Europe Ltd v First Choice Distribution [2000] 1 WLR 586 i gefnogi ei barn. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud y Rheoliadau hyn ac mae ganddynt y pŵer i gychwyn adran 53 o ran Cymru. Mae'n amlwg o ddarpariaethau gweithredol yr O.S. mai'r bwriad oedd i adran 170(4)(b)(vii) gael ei phennu yn y rhagymadrodd.

Fodd bynnag, byddwn yn cychwyn adran 53 yn llawn fel rhan o gam 2 y broses o weithredu Deddf Diogelwch Adeiladau 2022, sydd ar ddod.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ RE-87-2024

Huw Irranca-Davies MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd cyfarfod rhithwir eithriadol o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 14 Mawrth.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar Gyllideb y DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y goblygiadau i Gymru ac yn amlinellu'r penderfyniadau anodd rydym wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn cynnal gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Rydym yn agosáu at flwyddyn olaf ein setliad amlflwyddyn presennol heb unrhyw gadarnhad o'r hyn y gallai ein cyllideb fod ar ôl mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Byddaf yn ceisio eglurder ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU i gynnal adolygiad o wariant er mwyn helpu i flaengynllunio ein cyllideb.

Byddaf hefyd yn manteisio ar y cyfle i gyflwyno ymhellach i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yr achos dros hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol gan ddefnyddio proses ddiweddaraf Amcangyfrifon Atodol y DU yn enghraifft a thynnu sylw at y cytundeb y gwnaethom ei sicrhau ar draws pob plaid yn y Senedd.

Byddaf yn adrodd i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r cyfarfod.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE – 06 Mawrth 2024** |
| **DYDDIAD** | **12 Mawrth 2024** |
| **GAN** | **Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n hysbysu'r Aelodau fy mod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 11Medi 2023.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO). Hefyd yn bresennol roedd Gweinidogion o'r Alban a Gogledd Iwerddon: Angus Robertson ASA, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant; Michelle O'Neill, MLA, Prif Weinidog Gogledd Iwerddon; ac Emma Little-Pengelly, MLA, dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon.

Cynhaliwyd y cyfarfod i baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf Cyngor Partneriaeth y DU-UE o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad a Chyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael (WAJC), y disgwylir i'r ddau gael eu cynnal yn gynnar yn 2024.

Rydym yn falch bod y gwaith o baratoi'r cyfarfodydd hyn wedi gwella.

Rhoddodd y cyfarfod gyfle defnyddiol i mi amlinellu nifer o faterion pwysig sydd gan Lywodraeth Cymru i'w datblygu yn ystod y misoedd nesaf.

- Ein dymuniad i Lywodraeth y DU gynnwys y Llywodraethau Datganoledig mewn cyfarfodydd a'u paratoi i elwa i'r eithaf ar effeithiolrwydd gweithrediad y Cytundeb Cydweithredu Masnach (TCA).
- Yr angen am gytundeb ar gydnabyddiaeth ar y cyd ar asesiadau cydymffurfio.
- Pwysigrwydd cadw trefniadau Digonolrwydd Data'r UE.
- Ein pryderon parhaus ar reolau mewnforio'r UE sy'n effeithio ar allforio molysgiaid dwygragennog byw.

Cafodd y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Grwp Rhyngweinidogol hwn ei gymeradwyo yn y cyfarfod.

Nid yw'r cyfarfod nesaf o'r Grwp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi'i drefnu eto, ac nid oes unrhyw agenda wedi'i chymeradwyo hyd yma.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: 2024-03-01 IMG 06 Mawrth 24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

12 Mawrth 2024

Annwyl Huw

Yn dilyn fy llythyr a anfonwyd atoch ar 4 Mawrth 2024, ysgrifennaf atoch i'ch diweddaru ynghylch chweched cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE (IMG), a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2024.

Byddaf yn mynychu ar ran Llywodraeth Cymru. Amlinellir crynodeb o'r trafodaethau yn y Datganiad Ysgrifenedig: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE – 06 Mawrth 2024 (12 Mawrth 2024) | LLYW.CYMRU atodedig sydd wedi'i anfon at yr Aelodau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Gweinidog yr Economi

CC:

Delyth Jewell, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024** |
| **DYDDIAD** | **13 Mawrth 2024** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

Deddf Caffael 2023

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau mewn perthynas ag Awdurdodau Datganoledig Cymru.

**Diben y Rheoliadau**

Diben yr OS hwn yw cychwyn nifer o ddarpariaethau yn Neddf Caffael 2023 er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru osod Rheoliadau cadarnhaol gerbron y Senedd.

Mae Llywodraeth y DU yn gwneud y Rheoliadau Cychwyn hyn. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru, yn unol ag adran 127(3) o Ddeddf Caffael 2023, roi caniatâd.

Mae'r Rheoliadau ar gael yma: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024

Bydd Rheoliadau Cychwyn eraill a fydd yn cychwyn darpariaethau eraill yn Neddf Caffael 2023, a byddant yn sefydlu'r darpariaethau trosiannol a fydd yn pennu'r berthynas rhwng y cyfundrefnau caffael presennol a newydd. Bydd y Rheoliadau Cychwyn hyn hefyd yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Ni nodwyd unrhyw faterion o'r fath.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cychwyn nifer o ddarpariaethau yn Neddf Caffael 2023. Dim ond Gweinidog y Goron sydd â phwerau cychwyn o fewn y Ddeddf. Mae angen i Weinidogion Cymru gydsynio i'r Rheoliadau Cychwyn hyn i ganiatáu i reoliadau cadarnhaol gael eu gosod gerbron y Senedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0474/24

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru

13 Mawrth 2024

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024**

Rwy'n cyfeirio at fy llythyr atoch dyddiedig 27 Chwefror 2024. Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod bellach wedi rhoi fy nghaniatâd i Ysgrifennydd Seneddol Swyddfa'r Cabinet i wneud Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024.

Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig mewn perthynas â'r mater hwn sydd ar gael yn:

WS-LD16402 - Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 2) 2024

Er mwyn gweithredu'r drefn gaffael newydd o dan Ddeddf Caffael 2023 ("y Ddeddf"), mae angen gosod Rheoliadau Cychwyn o dan adran 127 o'r Ddeddf i ddod â darpariaethau penodol i rym. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y Rheoliadau Cychwyn hyn yn unol ag adran 127(3) o'r Ddeddf ac felly mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae angen i Weinidogion Cymru gydsynio i'r Rheoliadau Cychwyn hyn i ganiatáu i Reoliadau cadarnhaol gael eu gosod gerbron y Senedd.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 6.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024** |
| **DYDDIAD** | **14 Mawrth 2024** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd Is-iarll Younger o Leckie, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Waith a Phensiynau am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol etc.) 2024 i fod yn gymwys mewn perthynas â Phrydain Fawr.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud yr OS a nodir uchod drwy arfer pwerau a ddirprwyir iddynt yn Erthygl 85 ac Erthygl 83A(2) o Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol (EU) Rhif 528/2012 Prydain Fawr (GB BPR) (addasu i gynnydd gwyddonol a thechnegol).

Offeryn Statudol (OS) i addasu Atodiadau II a III o Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr (EU) Rhif 528/2012 (GB BPR), sy'n ymwneud â sicrhau bod cynhyrchion bioleiddiadol ar gael ar y farchnad ac ar gael i'w defnyddio i gyflwyno diweddariadau technegol i Atodiadau II a III o'r rheoliadau a fydd yn galluogi:

- Gostyngiad yn yr angen am brofi ar anifeiliaid
- Alinio â chanllawiau cyfredol a phrofion wedi eu dilysu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) i sicrhau bod cynnydd gwyddonol yn cael ei fonitro a bod datblygiadau'n cael eu hadlewyrchu.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 13 Mawrth 2024 a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2024.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr Aelodau yn dymuno nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**

Defnyddir cynhyrchion bioleiddiadol i amddiffyn pobl ac anifeiliaid, cadw nwyddau, atal plâu fel pryfed neu gnofilod a rheoli feirysau, bacteria a ffwng trwy weithred gemegol neu fiolegol. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cyflawni rôl awdurdod cymwys i Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion yng Nghymru a'r Alban sy'n cynnwys awdurdodi cynhyrchion bioleiddiadol i'w cyflenwi a'u defnyddio ym Mhrydain Fawr.

O dan Reoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr, mae sylweddau gweithredol bioleiddiadol (y sylweddau sy'n cynhyrchu'r effaith fioleiddiadol) a'r cynhyrchion sy'n eu cynnwys yn destun asesiad gwyddonol trylwyr o ran y risgiau posibl i bobl, anifeiliaid a'r amgylchedd, a'u heffeithiolrwydd cyn y gellir eu darparu ar y farchnad. Mae gwyddonwyr rheoleiddio yn Is-adran Rheoleiddio Cemegau HSE yn cynnal yr asesiadau yn dilyn cais a wneir gan fusnes neu fusnesau sy'n dymuno cymeradwyo cynnyrch bioleiddiadol neu sylwedd gweithredol. Er mwyn caniatáu cynnal asesiadau, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffeiliau o wybodaeth sy'n ymdrin â materion fel gwenwyndra, effeithiau ar yr amgylchedd, effeithiolrwydd, ac ati. Mae'r gofynion ar gyfer yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chyflwyno wedi'u nodi yn Atodiadau II (ar gyfer sylweddau gweithredol) a III (ar gyfer cynhyrchion bioleiddiadol) Rheoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr.

Ers i'r Rheoliad gael ei gyhoeddi yn 2012, gwnaed datblygiadau gwyddonol a thechnolegol o ran profi, sy'n caniatáu profi rhai priodweddau, lle mai'r unig fodd o'u pennu yn y gorffennol oedd trwy brofi gan ddefnyddio anifeiliaid byw, trwy ddefnyddio dulliau amgen, ac mae dulliau prawf newydd ar gael erbyn hyn i bennu effeithiau na ellid eu profi amdanynt yn ddibynadwy yn y gorffennol (megis y rhai i bennu effeithiau ar ddatblygu systemau nerfol mewn ffetysau).

Diben yr offeryn statudol (OS) cyfredol yw diweddaru'r gofynion a restrir yn Atodiadau II a III i gynnwys y dulliau profi mwy diweddar hyn. Diweddariad technegol yn unig yw hwn a bydd yn alinio system Prydain Fawr â'r canllawiau technegol a ddefnyddir ar hyn o bryd a chyda Rheoliad Cynhyrchion Bioleiddiadol yr UE, lle mae newidiadau o'r fath eisoes wedi'u rhoi ar waith.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion ynghylch tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/352/contents/made

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y diwygiadau hyn mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan, er mwyn sicrhau bod datblygiadau gwyddonol a thechnolegol sy'n ymestyn ein gallu i brofi ar gyfer effeithiau bioladdwyr a allai fod yn niweidiol yn cael eu hymgorffori yn y rheoliadau ac i alluogi gostyngiad yn yr angen am brofi ar anifeiliaid, yn ogystal â diogelu natur gydgysylltiedig cyfundrefn bioleiddiadol Prydain.

Welsh Parliament
**Senedd Cymru**

Eitem 7.1

# Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Adroddiad cryno'r pedwerydd cyfarfod

Mawrth 2024

Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn gorff ffurfiol a sefydlwyd dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE. Mae ganddo rôl bwysig o ran goruchwylio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a phob cytundeb rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pedwerydd cyfarfod y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn Llundain ar 4 a 5 Rhagfyr 2023. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o faterion pwysig i Gymru a drafodwyd yn y cyfarfod. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn myfyrio ar ddatblygiad ac esblygiad parhaus y corff a rôl a gwaith y Senedd ynddo.

Cymerodd Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Samuel Kurtz AS, aelod o Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ran yn y trydydd cyfarfod a chytunwyd ar yr adroddiad yn rhinwedd hynny.

Os oes gennych ddiddordeb yng ngwaith y Senedd ar y Cynulliad Partneriaeth Seneddol neu os hoffech ymgysylltu â'r Senedd cyn ei gyfarfodydd yn y dyfodol, anfonwch neges i Nia.Moss@senedd.cymru.

# Cynnwys

**1. Materion sy'n bwysig i'r Senedd a Chymru ........................................3**

'Ailadeiladu ymddiriedaeth': cyfnod mwy cadarnhaol yn y berthynas ................3

Symudedd yn creu cyfleoedd gwerthfawr.....................................................................4

Cynnydd ar hawliau dinasyddion i'w groesawu ond mae mwy i'w wneud .....5

Ystafell ar gyfer cydweithrediad adeiladol ar bysgodfeydd ..........................................5

Methiant i gydweithredu ar fasnachu allyriadau, ynni a hinsawdd yn creu risgiau ........................................................................................................................ 6

Mae diogelu data a thwf digidol yn feysydd allweddol o ddiddordeb cyffredin ........................................................................................................................ 6

**2. Ymgysylltiad y Senedd â gwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol........................................................................................7**

Ymgysylltu â rhanddeiliaid ........................................................................................ 8

Ymgysylltu â dirprwyaethau'r DU a'r UE a phwyllgorau eraill y Senedd ............ 8

# 1. Materion sy'n bwysig i'r Senedd a Chymru

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn cwmpasu meysydd pwysig sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sy'n cael effaith sylweddol arnynt. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain, sut y mae'r rhain yn effeithio ar Gymru a rôl y Cynulliad Partneriaeth Seneddol yng nghanllawiau a ffeithluniau Ymchwil y Senedd ar y cytundeb.

Yn y cyfarfod, trafodwyd y prif faterion sy'n bwysig i Gymru gan gynnwys symudedd ieuenctid, symudedd ar gyfer y sectorau diwylliant a chwaraeon, pysgodfeydd, hawliau dinasyddion, diogelu data, cydweithredu ynghylch newid hinsawdd, Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau'r UE a chydweithredu ynghylch ynni. Cafodd meysydd pwysig ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol, megis ar ddatblygu a rheoleiddio deallusrwydd artiffisial eu trafod hefyd gan y cynrychiolwyr.

Am y tro cyntaf, gwahoddwyd Aelodau o'r Senedd i gyfrannu i eitem lawn a siaradodd Huw Irranca-Davies AS am bwysigrwydd symudedd ieuenctid a chynllun Taith Llywodraeth Cymru.

Gwahoddwyd sefydliadau yng Nghymru i gyflwyno eu barn i ni cyn y cyfarfod. Rydym yn ddiolchgar i bawb a lwyddodd i wneud hynny o fewn yr amserlenni byr a roddwyd i ni. Adlewyrchwyd y safbwyntiau hyn mewn papur briffio a ddarparwyd i gynrychiolwyr y DU ac yn y cyfraniadau gan Aelodau o'r Senedd yn ystod y cyfarfod.

Gallwch wylio'r trafodion yn llawn ar sianel YouTube Senedd y Deyrnas Unedig.

### 'Ailadeiladu ymddiriedaeth': cyfnod mwy cadarnhaol yn y berthynas

Pwysleisiodd Leo Docherty AS, Gweinidog Ewrop Llywodraeth y DU, a Pedro Serrano, Llysgennad yr UE i'r DU, y naws gadarnhaol a chynhyrchiol mewn cysylltiadau rhwng y DU a'r UE dros y 12 mis diwethaf. Dywedodd y Llysgennad Serrano fod ailadeiladu ymddiriedaeth yn arwydd o'r flwyddyn hon ac mai mwy o gydweithredu fydd y canlyniad.

Canmolodd y Gweinidog Docherty y trafodaethau a'r gwaith drwy fforymau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ar yr economi ddigidol, cydweithredu ar nwyddau fferyllol, organig a mynediad i gyfreithwyr y DU i farchnad yr UE a dywedodd fod y DU yn agored i drafodaethau ar wella symudedd ieuenctid, cydweithredu ar ddiwylliant a datblygu a rheoleiddio deallusrwydd artiffisial.

Nododd y Llysgennad Serrano fod gweithredu'r Cytundeb Ymadael yn llawn, gan gynnwys gweithrediad llawn Fframwaith Windsor a rhwymedigaethau hawliau dinasyddion, yn hanfodol i ragor o gydweithredu dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Dywedodd y Llysgennad Serrano fod darpariaethau tegwch yn y farchnad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn parhau i fod yn faterion pwysig i'r UE ac y bydd yn parhau i ddilyn yn agos y diwygiadau gan y DU i gyfraith yr UE a ddargedwir a chydymffurfedd y DU â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n rhagofyniad ar gyfer cydweithredu gorfodi'r gyfraith yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Galwodd am drafodaethau cynnar ac ymarferol ar bysgodfeydd ar ôl 2026 a dywedodd fod rhaid i'r gwaith ar gyfer gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llawn ac yn uchelgeisiol barhau.

Cafodd tryloywder strwythurau llywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a phenderfyniadau a wnaed ynddynt ei godi gan aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Mae hyn yn fater sy'n cael sylw gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd yn ei adroddiad ar lywodraethiant y DU a'r UE.

## Symudedd yn creu cyfleoedd gwerthfawr

Yn ei drydydd argymhelliad i'r Cyngor Partneriaeth, cydnabu'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol y cyfleoedd gwerthfawr y mae symudedd dinasyddion, yn enwedig symudedd ieuenctid a diwylliannol, yn eu creu. I gydnabod y cymorth eang ar y ddwy ochr i wella gallu pobl ifanc ac artistiaid i deithio, symud a gweithio ar draws ffiniau, galwodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar y Cyngor Partneriaeth ac aelod-wladwriaethau'r UE i gydweithio er mwyn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae'n galw ar y DU a'r UE i ganiatáu'r defnydd o gardiau adnabod ar gyfer teithiau ysgol wedi'u trefnu ac i hepgor gofynion fisa. Mynegodd bryder bod y DU wedi cytuno i wneud hyn ar gyfer rhai aelod-wladwriaethau'r UE ond nid pob un a dywedodd fod dull anwahaniaethol yn hanfodol.

Dewisodd y DU beidio â bod yn rhan o Erasmus+, rhaglen symudedd ieuenctid ac addysg y DU, ar ôl Brexit. Atgoffodd Huw Irranca-Davies AS y Cyfarfod Llawn o gymorth Llywodraeth Cymru i'r DU ailymuno â rhaglen Erasmus+ a thynnu sylw'r cynrychiolwyr at raglen Taith Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi cyfranogwyr i ddod i Gymru yn ogystal â chefnogi sefydliadau a chyfranogwyr Cymru i fynd dramor.

Mae'r argymhelliad yn gwneud ceisiadau penodol ar gyfer artistiaid teithiol, mater a drafodwyd sawl gwaith yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn annog y DU a'r UE i flaenoriaethu symudedd artistiaid teithiol yn yr adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a ddisgwylir cyn 2026. Mae'n galw ar y ddwy ochr i ddyblu ymdrechion i symleiddio

trefniadau fisa a thollau ar gyfer artistiaid teithiol a'u timau ac estyn hyd y fisâu sydd ar gael ar gyfer teithio.

Tynnodd Aelodau o'r Senedd sylw hefyd at y materion y mae sefydliadau chwaraeon proffesiynol a gwirfoddol ac athletwyr yn eu hwynebu ar ôl Brexit a galw hefyd i'r materion y mae'r sector hwn yn eu hwynebu gael eu cydnabod.

Mae Pwyllgor Diwylliant y Senedd yn cynnal ymchwiliad i ddiwylliant a'r berthynas newydd â'r UE. Dechreuodd y Farwnes Deborah Bull, aelod o ddirprwyaeth y DU yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol, yr ymchwiliad drwy ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth ar 8 Chwefror 2024.

Galwodd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ar y Cyngor Partneriaeth i ymateb i'w argymhelliad cyn cyfarfod nesaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Mawrth 2024.

## Cynnydd ar hawliau dinasyddion i'w groesawu ond mae mwy i'w wneud

Croesawyd y cynnydd a wnaed wrth amddiffyn hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU a dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE. Fodd bynnag, galwodd y grŵp trafod ar hawliau dinasyddion ar Lywodraeth y DU i fabwysiadu agwedd syml a thosturiol ar weithredu dyfarniad yr Uchel Lys ar statws dinasyddion yr UE.

Galwodd am hyfforddiant i'r heddlu a lluoedd ffiniau ar y ddwy ochr ar hawliau dinasyddion sy'n teithio neu'n preswylio am gyfnodau byr a galwodd ar y Comisiwn Ewropeaidd i gael rôl ar ddarparu gwybodaeth hygyrch i ddinasyddion y DU. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cymorth i sefydliadau sy'n gweithio gyda dinasyddion, yn enwedig pobl sy'n agored i niwed, i gynnal eu hawl. Galwodd y grŵp ar y DU a'r UE i ddarparu cymorth digonol.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd yn monitro hawliau dinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru.

## Ystafell ar gyfer cydweithrediad adeiladol ar bysgodfeydd

Er ei fod yn cydnabod bod pysgodfeydd yn parhau i fod yn faes her a dadl rhwng y DU a'r UE, canfu'r grŵp trafod fod meysydd lle y gallai cydweithrediad adeiladol fod o fudd i'r diwydiant ar y ddwy ochr. Mae mynd i'r afael â materion y mae cymunedau pysgota Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn eu hwynebu yn un maes lle y gallai cytuno ar ateb cyffredin helpu i feithrin ymddiriedaeth ar gyfer negodiadau pysgota ehangach.

Galwodd y grŵp am ddull cydweithredol o reoli pysgodfeydd yn gynaliadwy sy'n ymgysylltu â chymunedau lleol. Cytunwyd y dylai fod dull amlflwydd y tu hwnt i 2026 i greu sicrwydd i gymunedau ar y ddwy ochr gyda mecanweithiau ar gyfer newidiadau stoc sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

## Methiant i gydweithredu ar fasnachu allyriadau, ynni a hinsawdd yn creu risgiau

Roedd yr angen am gydweithrediad agos ar ymrwymiadau hinsawdd rhyngwladol a chydweithrediad ynni yn alwadau cyffredin gan aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Wrth siarad yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd swyddogion Llywodraeth y DU eu bod yn siomedig gyda'r cynnydd a wnaed i weithredu teitl ynni'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac, yn benodol, gwnaethant alw am fwy o gynnydd ar ddatblygu trefniadau masnachu trydan effeithlon.

Croesawyd cynnydd ar gydweithrediad ynni ym Môr y Gogledd ond galwodd aelodau'r DU a'r UE i hyn gael ei estyn i ddyfnhau cydweithrediad yn y Môr Celtaidd a'r Iwerydd. Cododd Aelodau o'r Senedd gydweithrediad y Môr Celtaidd yng nghyfarfod diwethaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Codwyd pryder gan aelodau ar y ddwy ochr am risgiau dulliau gwahanol posibl o fasnachu allyriadau a dadleoli carbon yn y DU a'r UE. Trafodwyd goblygiadau posibl cyflwyno Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau'r UE heb gydweithrediad a chynllun cyfatebol yn y DU. Mynegodd y Farwnes Hayter bryderon am oblygiadau'r Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau i ddiwydiant dur Cymru ar ran Aelodau o'r Senedd yn ystod y ddadl. Galwodd Seán Kelly ASE, Is-lywydd dirprwyaeth Senedd Ewrop, i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol weithredu fel fforwm i ddileu gwrthdaro ar brisiau allyriadau ac addasu pris carbon.

Dywedodd swyddogion Llywodraeth y DU fod y Llywodraeth yn agored i ragor o gydweithredu ar fasnachu allyriadau.

Mae darpariaethau amgylchedd, hinsawdd ac ynni'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi'u hesbonio mewn canllaw gan Ymchwil y Senedd.

## Mae diogelu data a thwf digidol yn feysydd allweddol o ddiddordeb cyffredin

Nododd y grŵp trafod fod economïau digidol y DU a'r UE yn llusgo ar ôl yr Unol Daleithiau a rhanbarthau eraill a dywedodd y dylai'r ddwy ochr gydweithredu i sicrhau y caiff dinasyddion eu hamddiffyn wrth alluogi arloesi a thwf. Galwodd am

gydweithrediad ac ymgysylltiad deddfwriaethol parhaus rhwng y DU a'r UE i sicrhau y cynhelir safonau a bod y ddwy ochr yn sicrhau na fydd cytundebau digonolrwydd data'n mynd yn angof neu'n cael eu peryglu.

Nodwyd bod pwysigrwydd hanfodol gweithredu i ddiogelu ein democratiaethau rhag camwybodaeth ac ymyriad yn faes hanfodol ar gyfer cydweithrediad agos.

## 2. Ymgysylltiad y Senedd â gwaith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol

Mae gan ddeddfwrfeydd datganoledig lawer i'w gyfrannu i waith y Cynulliad Partneriaeth Seneddol, fel y dengys yr adroddiad hwn. Cefnogir cyfraniad cadarnhaol aelodau datganoledig gan lefel y diddordeb ac ymgysylltiad gan randdeiliaid o Gymru.

Ystyriodd yr adroddiad cryno ar y trydydd cyfarfod y cynnydd a wnaed yn erbyn pum argymhelliad. Parhaodd y cynnydd a wnaed yn y trydydd cyfarfod sy'n dangos bod ymgysylltiad y Senedd a'r deddfwrfeydd datganoledig yng ngwaith y corff yn ymwreiddio. Yr hyn a gafodd groeso arbennig yn ystod y trydydd cyfarfod oedd gwahoddiad i aelodau'r ddeddfwrfa ddatganoledig gyfrannu i'r drafodaeth ar eitem yn y cyfarfod llawn.

I Gymru, roedd hyn yn ein galluogi i godi'r gwaith pwysig ar symudedd sy'n cael ei wneud yng Nghymru a'r heriau parhaus y mae ein busnesau, ein diwylliant a'n sefydliadau chwaraeon yn eu hwynebu. Roedd grwpiau trafod hefyd yn ein galluogi i godi materion yn ymwneud â hawliau dinasyddion a gwaith pwysig Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ar fonitro gweithrediad y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru. Rydym hefyd yn codi materion sy'n peri pryder ar gyfer pysgodfeydd a moroedd Cymru.

Serch hynny, mae ein hargymhellion ar wreiddio rôl deddfwrfeydd datganoledig yn y Cynulliad Partneriaeth Seneddol a'r angen am barhau i ystyried caniatáu i'r deddfwrfeydd datganoledig gymryd rhan yn yr holl drafodaethau yn y cyfarfod llawn mewn meysydd datganoledig yn parhau i fod yn ddilys.

Er ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu i'r eitem ar symudedd, roedd llawer o eitemau eraill lle y gallem fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol. Er enghraifft, materion yn ymwneud ag effaith Mecanwaith Addasu Pris Carbon ar draws Ffiniau'r UE ar ddiwydiant dur Cymru. Rydym yn nodi ac yn croesawu cymorth dirprwyaeth Aelodau o Senedd Ewrop i roi hawliau siarad llawn i ddeddfwrfeydd datganoledig yn ystod y cyfarfod llawn.

Rydym yn deall yr amser cyfyngedig a oedd ar gael i holl aelodau'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol i gyfrannu yn ystod dadleuon y cyfarfod llawn ond rydym yn parhau i bwyso i amser gael ei ganfod ar gyfer deddfwrfeydd datganoledig. Mae gan y Cynulliad Partneriaeth Seneddol rôl hynod bwysig wrth gryfhau'r berthynas rhwng y DU a'r UE, a gall y deddfwrfeydd datganoledig wneud cyfraniad cadarnhaol at y broses o ddatblygu syniadau a rhannu arfer da.

Mae adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd ar lywodraethiant y DU a'r UE yn cydnabod yr esblygiad pwysig yn nhrefniadau gweithio'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol a'i bwysigrwydd fel man lle y gellir canfod atebion gwleidyddol.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rydym yn ddiolchgar am barodrwydd rhanddeiliaid yng Nghymru i gyflwyno tystiolaeth, materion a safbwyntiau i ni cyn cyfarfod diwethaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Mae'n amhrisiadwy wrth sicrhau y caiff materion sy'n bwysig i Gymru eu cyfrannu'n briodol. Un her allweddol wrth geisio ymgysylltu'n ffurfiol â rhanddeiliaid cyn cyfarfodydd yw bod agendâu'n cael eu rhannu'n hwyr iawn. Byddwn yn parhau i weithio i wella sut a phryd rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn cyfarfodydd y Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Mae Comisiwn y Senedd wedi derbyn yr argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd, y dylai'r Senedd weithio gyda chadeiryddion pwyllgorau perthnasol y Senedd ac Aelodau o'r Senedd ar ddirprwyaethau'r DU a'r UE i hwyluso ymgysylltiad rhanddeiliaid ar faterion y DU a'r UE. Rydym yn edrych ymlaen at gyfrannu i'r gwaith i fwrw ymlaen â hyn.

## Ymgysylltu â dirprwyaethau'r DU a'r UE a phwyllgorau eraill y Senedd

Gwnaethom dynnu ein hadroddiad diwethaf at sylw pwyllgorau perthnasol y Senedd a'r Prif Weinidog. Rydym yn ddiolchgar am eu hymateb cadarnhaol a byddwn yn parhau i ymgysylltu â hwy. Rydym yn croesawu'n gynnes ymgysylltiad Pwyllgor Diwylliant y Senedd â'r Farwnes Bull fel rhan o'i ymchwiliad i ddiwylliant

a'r berthynas newydd â'r UE yn seiliedig ar waith pwysig ar y mater hwn drwy'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Mae pwyllgorau'r Senedd wedi parhau i ymgysylltu â phwyllgorau cyfatebol y DU a'r UE ar faterion y DU a'r UE. Ymgysylltodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ag aelodau dirprwyaeth Senedd Ewrop pan wnaethant ymweld â Brwsel ym mis Medi a mis Tachwedd 2023.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref PO/CG/96/2024
Ein cyf/Our ref PO/CG/96/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymru

13 Mawrth 2024

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth a Chyfiawnder - 26 Chwefror 2024**

Annwyl Huw,

Yn y Pwyllgor Deddfwriaeth a Chyfiawnder ar 26 Chwefror, addewais roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am adolygiad Llywodraeth y DU o'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin ac i egluro rôl Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol (IGR).

*Adolygiad Llywodraeth y DU o Fframweithiau Cyffredin*

Mae Llywodraeth y DU wedi cynnal adolygiad o'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin y disgwylir iddo gael ei chyhoeddi cyn toriad yr haf, ond nid oes gennym ddyddiad i'w gyhoeddi eto.

*Ysgrifenyddiaeth IGR*

I egluro'r sefyllfa ddiweddaraf gyda staffio Ysgrifenyddiaeth IGR, gallaf gadarnhau bod Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth yn ei swydd ar fenthyg gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o ddwy flynedd a'i fod wedi'i benodi yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored ar draws yr holl lywodraethau. Mae Llywodraeth yr Alban wedi neilltuo aelod o staff i Ysgrifenyddiaeth IGR. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n recriwtio aelod ychwanegol o staff a gaiff ei neilltuo hefyd i Ysgrifenyddiaeth IGR. Rydym yn anelu at lenwi'r swydd hon cyn gynted â phosibl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r cyfrifoldeb am Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn nwylo pob llywodraeth sy'n dal yn atebol i'w priod ddeddfwrfeydd. Er hynny, amlinellir swyddogaeth a rôl Ysgrifenyddiaeth IGR ar dudalen we benodol, a gynhelir ar wefan Llywodraeth y DU.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon